

# PROSIECT VYRNWY FRANKTON GREEN GEN CYMRU

## Datganiad Ymgynghori Cymunedol

GREEN GEN CYMRU

www.greengenvyrnwyfrankton.com

# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad** **3**

**2. Gwybodaeth am Brosiect Vyrnwy Frankton Green GEN Cymru** **4**

2.1 Gwybodaeth am Green GEN Cymru 4
2.2 Pam mae angen y prosiect 4
2.3 Y prosiect arfaethedig 5
2.4 Asesiad amgylcheddol 6
2.5 Manteision ac effeithiau'r Prosiect 6
2.6 Ymgynghori ac ymgysylltu hyd yma 7
2.7 Amserlen y prosiect 8

**3. Y broses gydsynio ac ymgynghori** **9**

3.1 Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol 9
3.2 Y broses gydsynio 10
3.3 Ymgynghoriad cyn gwneud cais 11

**4. Ymgynghoriad Statudol Gwanwyn 2025** **12**

4.1 Y Datganiad Ymgynghori Cymunedol (SoCC) 12
4.2 Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch 13
4.3 Pryd rydym ni'n ymgynghori 13
4.4 Ble rydym ni'n ymgynghori 14
4.5 Gyda phwy rydym ni'n ymgynghori 15
4.6 Sut rydym ni'n ymgynghori 15
4.7 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad 17
4.8 Y Gymraeg 17
4.9 Ymateb i'r Ymgynghoriad 18
4.10 Ymholiadau a gwybodaeth 18
4.11 Ceisiadau am ddogfennau 19
4.12 Y potensial ar gyfer ymgynghoriadau eraill yn yr ardal 19
4.13 Ymgynghori yn ychwanegol i'r ymgynghoriad cymunedol 20

**5. Beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad** **21**

**6. Cysylltu â ni** **22**

**Atodiad** **23**

1. Sefydliadau nad ydym yn clywed ganddynt yn aml 23

# 1. CYFLWYNIAD

## Mae'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol (SoCC) hwn yn ymwneud â Phrosiect Vyrnwy FranktonGreen Generation Energy Networks Cymru (Green GEN Cymru) – cysylltiad 132kV newydd o barciau ynni adnewyddadwy newydd ym Mhowys i'r Rhwydwaith Trawsyrru Trydan Cenedlaethol yn Swydd Amwythig (y Prosiect).

Mae'n egluro'r ymgynghoriad cymunedol y bydd Green GEN Cymru yn ei gynnal gyda chymunedau ym Mhowys a Swydd Amwythig ger y Prosiect.

Rydym yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer wyth wythnos yng ngwanwyn 2025.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro hyd a lled a natur yr ymgynghoriad cymunedol sy'n cael ei gynnal ac mae'n cynnwys:

- Crynodeb o'r Prosiect
- Gwybodaeth gyffredinol am y broses gydsynio
- Gwybodaeth am pam mae angen y Prosiect
- Manylion ble a phryd y cynhelir yr ymgynghoriad ac â phwy yr ymgynghorir
- Sut y cynhelir yr ymgynghoriad, gan gynnwys y deunyddiau a gweithgareddau ymgysylltu eraill
- Ble gall pobl weld y deunyddiau ymgynghori a chael mwy o wybodaeth am y Prosiect
- Pwysigrwydd adborth gan bobl leol a sut y gallan nhw roi eu sylwadau

Mae'r ymgynghoriad yn gyfle pwysig i gymunedau lleol (gan gynnwys preswylwyr, busnesau, sefydliadau ac ymwelwyr) gymryd rhan a dylanwadu ar gynigion Green GEN Cymru.

Er mwyn datblygu'r SoCC hwn, rydym wedi ymgynghori â Chyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Amwythig.



# 2. GWYBODAETH AM BROSIECT VYRNWY FRANKTON GREEN GEN CYMRU

## 2.1 Gwybodaeth am Green GEN Cymru

Mae Green GEN Cymru wedi cael Trwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO) gan Ofgem ac mae'n datblygu seilwaith grid newydd i ddatgloi potensial ynni Cymru a diwallu anghenion ei phobl, ei chymunedau a'i busnesau yn y dyfodol.

Oherwydd systemau gwresogi trydan a cherbydau trydan newydd, mae'r galw am drydan yn debygol o gynyddu yn ystod y degawd nesaf, gan roi pwysau cynyddol ar seilwaith presennol y grid.

Bydd ein rhwydwaith arfaethedig yn lleihau'r pwysau hwn ac yn caniatáu cysylltiad uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr ynni newydd, fel busnesau, a chynhyrchwyr ynni newydd, fel prosiectau cymunedol a phrosiectau adnewyddadwy eraill.

Mae potensial di-ben-draw ar gyfer ffynonellau ynni newydd a glân yng Nghymru, ac mae angen i ni sicrhau fod yr ynni'n cyrraedd y cartrefi, yr ysbytai, yr ysgolion, y busnesau a'r cymunedau sydd ei angen. Bydd ein rhwydwaith ynni arfaethedig yn ymateb i'r her hon drwy gefnogi, cyflymu a galluogi trawsnewidiad Cymru i sero net.

## 2.2 Pam mae angen y prosiect

Mae'r heriau cysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn cael eu cydnabod yn helaeth gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth San Steffan, a'r awdurdodau lleol ym Mhowys a Swydd Amwythig. Mae'r ddau gyngor wedi adrodd bod effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu gweld yn y siroedd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, nod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw cyflymu datblygiad ynni adnewyddadwy. Wrth i ni symud oddi wrth danwydd ffosil, bydd safleoedd cynhyrchu ynni newydd yn cael eu sefydlu ble gallant harneisio ffynonellau cynaliadwy fel gwynt, ynni llanw a solar.

Mae parciau ynni newydd wedi'u cynnig yng nghanolbarth Cymru, ond nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i'w cysylltu.

Rydym wedi ein contractio i ddarparu cysylltiadau ar gyfer:

- Parc Ynni Llyn Lort
- Parc Ynni Rhiwlas
- Parc Ynni Banc Du
- Parc Ynni Esgair Galed
- Parc Ynni Waun Hesgog
- Parc Ynni Maesnant
- Parc Ynni Llyn Lort II

Mae Green GEN Cymru yn darparu cysylltiadau newydd i sicrhau bod modd i gartrefi a busnesau ddefnyddio'r ynni a gynhyrchir gan y parciau ynni newydd, yn lleol ac yn genedlaethol.

## 2.3 Y prosiect arfaethedig


Mae'r Prosiect yn cynnwys:

- Is-orsaf casglu 132 kV newydd ger Cefn Coch, Powys, a elwir yn is-orsaf Grug y Mynydd
- Tua 4.8km o gebl tanddaearol o is-orsaf Grug y Mynydd trwy Barc Ynni arfaethedig Llyn Lort i gompownd pen selio ceblau yng Nghors y Carreg
- Byddai compownd pen selio ceblau Cors y Carreg yn galluogi'r pontio rhwng ceblau tanddaearol a dargludyddion uwchben
- Cefnogir tua 45km o linell uwchben newydd ar beilonau dellt dur L7(c) (uchder cyfartalog o 28.5m) o gompownd pen selio Cors y Carreg drwy Ddyffryn Efyrnwy i orsaf newid newydd.
- Gorsaf newid ger Frankton Isaf, Swydd Amwythig sy'n caniatáu i'r pŵer gael ei ynysu oddi wrth is-orsaf posib newydd sy'n cael ei datblygu gan y Grid Cenedlaethol i gysylltu â'r system trawsyrru trydan genedlaethol 400kV bresennol.
- Tir y bydd ei angen ar gyfer mesurau lliniaru amgylcheddol, digolledu a gwella

Bydd cynlluniau a darluniadau i ddangos y llwybr a thyrau enghreifftiol ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.

Green GEN Cymru sy'n gyfrifol am yr is-orsaf gasglu, y cysylltiad 132kV, y compownd terfyn selio ceblau a'r orsaf newid. Mae'r is-orsaf yn Swydd Amwythig, sy'n cysylltu â'r System Drydan Genedlaethol bresennol, yn cael ei datblygu gan National Grid Electricity Transmission.

**Cysylltiad 132kV nodweddiadol ar beilonau dellt dur**



## 2.4 Asesiad amgylcheddol

### Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) ar y datblygiad, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017. Mae AEA yn cael ei gynnal i sicrhau bod effeithiau tebygol y Prosiect yn cael eu deall yn iawn, gan gynnwys a oes modd rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith. O ganlyniad, bydd Datganiad Amgylcheddol yn rhan o'r cais, a fydd yn cynnwys canlyniadau y broses AEA, a fydd yn nodi effeithiau amgylcheddol tebygol y Prosiect, yn ogystal â nodi unrhyw fesurau lliniaru.

### Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR)

Mae'n rhaid i ni hefyd gynhyrchu Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) ar gyfer yr ymgynghoriad statudol, sy'n ddogfen bwysig yn y broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), gan ddarparu gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol sy'n berthnasol i'r Prosiect. Bydd y PEIR yn cynnwys disgrifiad o'r Prosiect, ac asesiad rhagarweiniol o effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y Prosiect, ar sail y wybodaeth gychwynnol sydd ar gael bryd hynny. Bydd hefyd yn nodi sut rydym yn cynnig atal, lleihau neu wrthbwyso effeithiau amgylcheddol. Bydd copïau o'r PEIR ar gael ar wefan y Prosiect, ac ar ffurf copi caled (er gwybodaeth yn unig) yn y digwyddiadau ymgynghori.

## 2.5 Manteision ac effeithiau'r Prosiect

Bydd y Prosiect a'r cynhyrchu ynni cysylltiedig yn helpu'r DU i gwrdd â'i thargedau o ran lleihau allyriadau a darparu ynni diogel a dibynadwy i gymunedau ym Mhowys, Swydd Amwythig a thu hwnt.

Mae angen ein gwaith hefyd i ddatgloi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru a hwyluso'r uchelgeisiau economaidd mewn perthynas â chynhyrchu ynni.

Fodd bynnag, ni ellir cyflawni'r manteision hyn heb rai effeithiau amgylcheddol niweidiol, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r Prosiect.

Gallai'r rhain gynnwys effeithiau ar dirwedd ac amwynderau gweledol; ecoleg a bywyd gwyllt; dŵr ac ansawdd aer; draenio a pherygl llifogydd; archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol; sŵn a dirgryndod; a chludiant a ffactorau economaidd-gymdeithasol.

Bydd asesiad rhagarweiniol o'r effeithiau hyn, a manylion unrhyw fesurau lliniaru, yn cael eu nodi yn y PEIR ar gyfer yr ymgynghoriad statudol a bydd yr asesiad terfynol yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Bydd y PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw waith adfer tir angenrheidiol, tirweddu a mesurau lliniaru eraill.

Gellir lleihau neu osgoi llawer o'r effeithiau hyn drwy ddylunio gofalus a defnyddio mesurau lliniaru. Rheswm pwysig dros ymgynghori â'r gymuned leol yw cael adborth gan y gymuned ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

## 2.6 Ymgynghori ac ymgysylltu hyd yma

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n gynnar â chymunedau ac rydym eisoes wedi rhoi cyfle i bobl leol roi sylwadau ar y Prosiect arfaethedig.

Ein dull gweithredu oedd datblygu'r Prosiect mewn proses dau gam.

Ar bob cam rydym yn datblygu opsiynau, yn eu hasesu ac yn ymgynghori arnynt lle gall adborth wneud cyfraniad ystyrlon. Mae'r adborth hwnnw wedyn yn sail i ddatblygiad parhaus y Prosiect.

Gyda'i gilydd, mae'r asesiadau rydym ni'n eu cynnal a'r adborth rydym ni'n ei gael yn ein helpu ni i ddeall effeithiau'r Prosiect a gwneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o'u rheoli.

Fe wnaethom gynnal cam cyntaf yr ymgynghoriad anstatudol rhwng 6 Medi ac 18 Hydref 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynodd Green GEN Cymru lwybr a ffefrir ar gyfer y cysylltiad rhwng Parc Ynni Llyn Lort ac ardal chwilio arfaethedig is-orsaf y National Grid.

Ar ôl i'r cam cyntaf hwn o'r ymgynghoriad ddod i ben, buom yn dadansoddi'r adborth a gafwyd, ynghyd â chynnal rhagor o asesiadau effaith technegol a gwaith dylunio i fireinio ein cynigion cyn ymgynghori ymhellach â'r cyhoedd. Cynhyrchwyd crynodeb o'r adborth, yn tynnu sylw at themâu allweddol o'r adborth. Bydd y sylwadau a gawn o ymgynghoriadau'r dyfodol hefyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu ein cynigion terfynol.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori cam un yn cynnwys crynodeb o'r holl adborth a gawsom a sut mae pob sylw'n cael ei ystyried. Bydd yr adroddiad hwn ar gael yn lansiad yr ymgynghoriad statudol a bydd adroddiad terfynol ar yr ymgynghoriad yn cael ei gynnwys yn ein cais am DCO.

Mae ymgynghoriad cymunedol gwanwyn 2025 yn ymgynghoriad statudol ar ein cynigion manwl.

Dylid cynnal ymgynghoriad statudol pan fydd prosiect arfaethedig wedi cael ei lunio'n fanwl ac mae'n barod i dderbyn sylwadau. Yna, cynhelir yr ymgynghoriad yn unol â'r rheoliadau cynllunio perthnasol.

Mae'r sylwadau a gafwyd mewn cysylltiad â'n ymgynghoriadau wedi cael eu hystyried, a byddant yn parhau i gael eu hystyried ac yn dylanwadu ar y cynigion. Rydym yn rhagweld mai ymgynghoriad gwanwyn 2025 fydd yr ymgynghoriad terfynol ar y prosiect yn ei gyfanrwydd cyn i ni wneud cais am DCO. Os bydd angen, bydd Green GEN Cymru yn cynnal ymgynghoriad pellach wedi'i dargedu ar unrhyw newidiadau i'r Prosiect. Bydd hyn yn gymesur â graddfa'r newid a bydd yn unol â'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y SoCC hwn.

Camau ein hymgynghoriad:

| **Cam un – Hydref 2023** |
|---|
| Ymgynghoriad ar y llwybr a ffefrir drwy Bowys a Swydd Amwythig. |
| **Cam dau – Gwanwyn 2025** |
| Ymgynghoriad statudol ar y Prosiect, gan gynnwys gwaith lliniaru, gwaith adeiladu, ffyrdd mynediad ac addasiadau i briffyrdd. Mae hyn yn cynnwys Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) – asesiad rhagarweiniol o effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y Prosiect, ynghyd â dogfennau technegol eraill. |

## 2.7 Amserlen y prosiect

Mae amserlen ddisgwyliedig ein prosiect fel a ganlyn:

**2023**
Medi – Ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf

**2025**
Yr ail ymgynghoriad cyhoeddus, statudol

**2026**
Cyflwyno ein DCO ar gyfer adolygiad

**2027**
Y dyddiad cynharaf y byddai'r cais yn cael ei benderfynu

**2027**
Gwaith adeiladu'n dechrau os yw'r prosiect yn cael cydsyniad

**2029**
Cysylltiad Vyrnwy Frankton yn weithredol

# 3. Y BROSES GYDSYNIO AC YMGYNGHORI

## 3.1 Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

Mae llinellau trydan foltedd uchel newydd sy'n hirach na 2km, ac yn rhannol neu'n gyfan gwbl yn Lloegr, yn cael eu cydnabod fel Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

Mae'r broses hon yn mynnu bod ceisiadau am gydsyniad datblygu yn cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol (e.e. cyngor sir). Mae angen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar ddatblygwyr Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol cyn y gellir adeiladu'r cynigion.

Ar sail ein gwaith a'n hymgynghoriad hyd yma, rydym ni'n rhagweld y bydd y Prosiect yn cynnwys llinell uwchben sy'n hirach na 2km o hyd, ac felly bydd angen DCO arnom ni.

Pan fydd ein cynigion yn cael eu cwblhau'n derfynol ar ôl ymgynghori, byddwn yn gwneud cais am DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penodi Awdurdod Archwilio i archwilio'r cais am DCO ac yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol sy'n gyfrifol am benderfynu ar y cais. Ar gyfer ein prosiect, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net fyddai hwn.

Bydd y cais am DCO yn cael ei benderfynu yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n nodi amcanion a pholisïau Llywodraeth y DU ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol newydd. Mae dau Ddatganiad Polisi Cenedlaethol sy'n berthnasol i'n gwaith:

- EN-1 yw'r datganiad cyffredinol sy'n egluro'r angen am seilwaith ynni newydd;[1] ac
- EN-5 sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu seilwaith rhwydwaith trydan o arwyddocâd cenedlaethol.[2]

Cafodd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol hyn eu dynodi ym mis Ionawr 2024.



[1]https://www.gov.uk/government/publications/overarching-national-policy-statement-for-energy-en-1

[2]https://www.gov.uk/government/publications/national-policy-statement-for-electricity-networks-infrastructure-en-5

## 3.2 Y broses gydsynio

Cyflwynir rhagor o wybodaeth am y broses DCO isod. Mae rhagor o wybodaeth am y broses gynllunio ar gyfer prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gael yn:
**https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/the-process/**

**Ymgynghoriad**
Bydd Green GEN Cymru yn hysbysu ac yn ymgynghori â'r cyhoedd, ymgyngoreion statudol a'r rheini sydd â buddiant yn y tir yr effeithir arno (yn unol ag adrannau 42, 47 a 48 o Ddeddf Cynllunio 2008) ynghylch ei gais arfaethedig, yn dilyn ymgynghoriad anstatudol cynharach.

**Cyflwyno**
Bydd Green GEN Cymru yn adolygu'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn cwblhau'r cynigion, gan ystyried yr adborth hwn. Yna, cyflwynir cais am DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio, a fydd yn penodi'r Awdurdod Archwilio ar gyfer y cais.

**Derbyn**
Ar ôl cyflwyno'r cais, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penderfynu a yw'n addas i'w archwilio. Bydd gan yr Arolygiaeth Gynllunio 28 diwrnod i benderfynu a ddylid derbyn y cais i'w archwilio.

**Cyn-archwilio**
Os caiff ei dderbyn i'w archwilio, bydd cyfle i bobl gofrestru eu diddordeb yn y cais gyda'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd unrhyw un sy'n cofrestru diddordeb yn cael gwybod am hynt y cais, gan gynnwys pryd a sut y gallant roi sylwadau. Bydd cyfarfod rhagarweiniol yn pennu'r amserlen ar gyfer y gwaith archwilio.

**Archwilio**
Disgwylir i'r gwaith archwilio'n bara hyd at chwe mis. Bydd pobl sydd wedi cofrestru eu diddordeb yn gallu cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Archwilio a gofyn am gael siarad mewn gwrandawiadau.

**Penderfyniad**
Ar ôl y gwaith archwilio, bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwneud argymhelliad ar y cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net. Yn y pen draw, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu a fydd DCO yn cael ei ganiatáu ai peidio. Bydd gan yr Awdurdod Archwilio dri mis o ddiwedd yr archwiliad i gyhoeddi ei adroddiad argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd wedyn yn cael tri mis arall i wneud y penderfyniad terfynol.

## 3.3 Ymgynghoriad cyn gwneud cais

Cyn cyflwyno cais, mae Deddf Cynllunio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau lleol ac ymgyngoreion statudol.

Mae canllawiau Llywodraeth y DU yn nodi'r canlynol:

***Mae ymgynghori effeithiol cyn gwneud cais yn allweddol i ddatblygu ceisiadau sydd wedi'u paratoi'n dda ac sy'n ddealladwy i'r cyhoedd. Mae ymgynghori ar gynigion datblygu yn caniatáu i ymgyngoreion a chymunedau lleol i ddylanwadu ar sut y gellir darparu ar gyfer seilwaith sy'n diwallu angen cenedlaethol yn eu hardal, ac sy'n galluogi ymgeiswyr i lunio cynigion yn fwy effeithiol.***

a

***Gall cynnwys cymunedau lleol, awdurdodau lleol ac ymgyngoreion statudol yn gynnar yn ystod y cam cyn gwneud cais, drwy ymgynghori a mathau eraill o ymgysylltu, arwain at fanteision sylweddol i bob parti.***

Mae Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn nodi dyletswydd statudol yr ymgeisydd i ymgynghori â chymunedau lleol, sy'n cynnwys datblygu SoCC.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ymgynghori ag awdurdodau lleol perthnasol ynghylch beth fydd yn y SoCC a sut maent yn bwriadu ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch y cais am DCO arfaethedig, cyn cynnal yr ymgynghoriad hwnnw.

Pan fydd y SoCC yn derfynol, rhaid i ymgeiswyr hefyd roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y SoCC ar gael drwy hysbysiad cyhoeddus mewn papur newydd sy'n lleol i'r cynigion.



# 4. YMGYNGHORIAD STATUDOL GWANWYN 2025

## 4.1 Y Datganiad Ymgynghori Cymunedol (SoCC)

Mae'r SoCC hwn yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer yr ymgynghoriad statudol ar gyfer y Prosiect a fydd yn cael ei gynnal yng ngwanwyn 2025.

Mae'r SoCC wedi'i baratoi yn unol ag Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008. Mae adran 47(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr 'baratoi datganiad sy'n nodi sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori, ynghylch y cais arfaethedig, gyda phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir'.

Er mwyn paratoi'r SoCC, rydym wedi ystyried ystod o ganllawiau a gwybodaeth, gan gynnwys:

- Canllawiau'r llywodraeth ar ymgynghori cyn ymgeisio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
- Canllawiau Cyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Amwythig
- Ein profiadau o'n hymgynghoriad anstatudol cyntaf yn hydref 2023
- Arferion da ar gyfer ymgynghori, gan gynnwys Egwyddorion Gunning
- Data demograffig lleol, gan gynnwys mynediad at fand eang, ystyriaethau symudedd, a grwpiau a allai gael eu hystyried yn 'grwpiau nad ydym yn clywed ganddynt yn aml'

Mae'r ymgynghoriad statudol hwn yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008.

Mae'r ymgynghoriad ar agor o 19 Chwefror - 16 Ebrill.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi gwybodaeth i bobl sy'n byw ger y cynigion am ei ddyluniad, ei fanteision a'i effeithiau, ac yn rhoi cyfle iddynt roi adborth ar y cynigion.

Amcan yr ymgynghoriad yw deall yr effeithiau canfyddedig sydd gan bobl o'r Prosiect, ac a oes ganddynt awgrymiadau ynghylch sut y gellir lliniaru'r effeithiau, er mwyn i ni allu ystyried y wybodaeth hon wrth ddatblygu'r cynigion.

Bydd adborth gan y gymuned i'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag adborth gan y rheini sydd â buddiant yn y tir; ymgyngoreion statudol ac anstatudol; a chanfyddiadau ein asesiadau parhaus, gan gynnwys yr asesiad o'r effaith amgylcheddol.

Byddwn yn adolygu'r holl adborth yn ofalus ac yn ei ddefnyddio i gwblhau ein cynigion cyn cyflwyno ein cais am gydsyniad datblygu. Bydd crynodeb o'r holl adborth a sut mae Green GEN Cymru yn ei ystyried wrth ddatblygu'r Prosiect yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori, a fydd yn rhan o'n cais.

Er mwyn caniatáu i bobl ymgysylltu â'r ymgynghoriad fel sy'n hwylus iddyn nhw, mae Green GEN Cymru wedi llunio ymgynghoriad 'digidol yn gyntaf'. Mae hyn yn caniatáu i unigolion a grwpiau gymryd rhan hyd yn oed os na allant ymgysylltu ar sail wyneb yn wyneb, e.e. mewn digwyddiad cymunedol.

Bydd yr holl wybodaeth ar gael ar y wefan ac anogir aelodau o'r gymuned i gyflwyno adborth gan ddefnyddio'r ffurflen adborth ar-lein.

I'r rheini sy'n llai cyfforddus yn ymgysylltu'n ddigidol, rydym ni wedi sicrhau bod yr un deunyddiau, a mynediad at aelodau'r prosiect, ar gael mewn digwyddiadau cymunedol.

Bydd y digwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cyhoeddus, hygyrch a thros nifer o ddiwrnodau, gan gynnwys dau benwythnos, i annog presenoldeb. Bydd copïau caled o ddogfennau technegol ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori, er gwybodaeth yn unig. Bydd copïau caled o ddeunyddiau cymunedol (gweler 4.6) ar gael i fynd adref gyda chi.

## 4.2 Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn gofyn am adborth ar bob agwedd ar ein cynigion, ond yn benodol:

- pob un o'n cynigion ym Mhowys a Swydd Amwythig fel y nodir yn adran 3.3;
- gwaith galluogi sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn, e.e. compowndiau adeiladu, addasiadau i ffyrdd a ffyrdd mynediad;
- effeithiau amgylcheddol posibl y Prosiect ac a oes gan ymgyngoreion awgrymiadau ar gyfer lliniaru'r effeithiau hyn; a
- manteision posibl y Prosiect ar lefel leol a chenedlaethol, e.e. cyfrannu at sero net a diogelu'r cyflenwad ynni.

## 4.3 Pryd rydym ni'n ymgynghori

Y cyfnod ymgynghori statudol sylfaenol yw 28 diwrnod yn dechrau o'r diwrnod ar ôl cyhoeddi'r dogfennau ymgynghori.

Byddwn ni'n cynnal ymgynghoriad wyth wythnos o hyd o 19 Chwefror - 16 Ebril 2025.



## 4.4 Ble rydym ni'n ymgynghori


Mae ymgynghori â phobl sy'n byw'n agos at y prosiect, y gallai'r datblygiad effeithio arnynt, yn rhan bwysig o'r broses DCO.

Mae Adran 47 Deddf Cynllunio 2008 yn disgrifio'r rhain fel 'pobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir sy'n rhan o'r cais arfaethedig'.

Rydym wedi datblygu parth ymgynghori mewn ymateb i'r gofyniad hwn. Mae parth ymgynghori wedi cael ei ddatblygu ar sail radiws un cilometr o amgylch y cynigion. Mae hyn yn seiliedig ar hyd a lled tebygol effeithiau'r prosiect, e.e. yn ystod y cam adeiladu, ac effeithiau gweledol gweddilliol.

Bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau ymgynghori â'r gymuned yn canolbwyntio ar y parth ymgynghori, gan gynnwys cyhoeddusrwydd i gartrefi a digwyddiadau cymunedol (gweler isod).

**Y Parth Ymgynghori**



## 4.5 Gyda phwy rydym ni'n ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad cymunedol yn agored i unrhyw un sy'n teimlo effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol y cynigion a/neu sy'n dymuno rhoi adborth. Byddwn yn gwneud ein gorau i ymgysylltu â'r bobl a'r grwpiau canlynol:

- **Cymunedau lleol** – pobl â chartrefi a busnesau yn y parth ymgynghori, ac unrhyw un sydd wedi rhoi caniatâd i gael gwybod am ddatblygiadau'r prosiect (fel y rheini sy'n tanysgrifio i gael diweddariadau drwy wefan y prosiect a/neu wrth roi adborth);
- **Cynrychiolwyr etholedig** – cynghorwyr sir; Aelodau Seneddol; ac Aelodau o Senedd Cymru;
- **Grwpiau diddordeb arbennig a nodwyd** sy'n cynrychioli cymunedau fel clybiau chwaraeon a hamdden, a grwpiau bywyd gwyllt, treftadaeth a hamdden lleol.

### Pobl nad ydym yn clywed ganddynt yn aml

Rydym yn cydnabod y gall rhai unigolion a grwpiau ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y broses ymgynghori am amrywiaeth o resymau, a chyfeirir atynt fel 'grwpiau nad ydym yn clywed ganddynt yn aml'.

Rydym wedi nodi nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl nad ydym yn clywed ganddynt yn aml. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau fel grwpiau anabledd, elusennau lleol, grwpiau ieuenctid, ysgolion ac ymddiriedolaethau addysg, ac eraill (gweler yr atodiad).

Ysgrifennir at y sefydliadau hyn ar ddechrau'r ymgynghoriad i'w hysbysu o'r lansiad ac i ofyn iddynt ddarparu gwybodaeth i'w haelodau neu'r rheini maen nhw'n eu cynrychioli. Byddwn yn gofyn am eu cyngor os oes dulliau neu ddeunyddiau penodol y gallem eu darparu i gefnogi'r rheini y maent yn eu cynrychioli.

## 4.6 Sut rydym ni'n ymgynghori

Byddwn yn ymgynghori gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i helpu i egluro ein cynigion ac annog pobl i roi eu sylwadau.

### Deunyddiau cymunedol

Bydd y deunyddiau canlynol yn cael eu cynhyrchu a byddant ar gael yn lansiad yr ymgynghoriad. Bydd y dogfennau hyn yn helpu pobl i ddeall y Prosiect ac yn cynnig rhagor o fanylion am unrhyw newidiadau a wnaed ers yr ymgynghoriad anstatudol. Bydd yr holl ddeunyddiau hyn ar gael yn y Gymraeg (gweler y nodyn ar y Gymraeg yn adran 4.8).

- **Gwefan** – y wefan (**greengenvyrnwyfrankton.com**) fydd y brif ffynhonnell o wybodaeth a bydd yn cael ei diweddaru i esbonio'r cynigion diweddaraf. Bydd y wefan yn gweithredu fel llyfrgell ar gyfer pob fersiwn deunydd digidol, a bydd yn nodi'n glir sut gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a phryd mae'r dyddiad cau ar gyfer rhoi adborth.
- **Llyfryn yr ymgynghoriad** – bydd y llyfryn hwn yn rhoi crynodeb o'r cynigion diweddaraf, gan nodi'r aliniad llwybr a lleoliadau peilonau bras, ochr yn ochr ag unrhyw seilwaith ychwanegol sydd ei angen. Bydd yn egluro sut y gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a beth yw'r dyddiad cau ar gyfer rhoi adborth. Bydd y llyfryn ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori, a bydd ar gael ar y wefan.
- **Ffurflen adborth** – bydd yr holiadur hwn yn ffordd hawdd i bobl gofnodi a chyflwyno eu hadborth. Bydd ymatebwyr yn gallu rhoi adborth drwy lenwi'r ffurflen wedi'i hargraffu, neu drwy ymweld â gwefan ein prosiect a llenwi'r ffurflen ar-lein. Bydd y ffurflen adborth yn cynnwys blychau testun rhydd a blychau hunanddewis. Mae'r ffurflen adborth wedi cael ei dylunio i annog pobl i roi adborth sy'n benodol i'n cynigion, ond hefyd i ddarparu adborth ehangach mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig yn ei gyfanrwydd.

**Copïau wedi'u hargraffu ar gael**

Bydd llyfryn yr ymgynghoriad a'r ffurflen adborth ar gael ar ffurf copi caled yn ein digwyddiadau cymunedol ac ar gais.Mae copïau ar gael hefyd yn y lleoliadau canlynol:

**Llyfrgell Gymunedol Llanfair Caereinion:**
Y Sefydliad, Llanfair Caereinion, Powys, SY21 0RY.

**Llyfrgell Croesoswallt:**
Arthur Street, Croesoswallt, Swydd Amwythig, SY11 1JN.

**Llyfrgell Gobowen:**
Heol Sant Martin, Gobowen, Croesoswallt, Swydd Amwythig SY11 3NP.

## Digwyddiadau cymunedol

Gwahoddir y cyhoedd i ymweld a chwrdd â thîm y Prosiect, i gael gwybod am y Prosiect a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt mewn digwyddiadau cymunedol a gynhelir yn yr ardal leol. Cynhelir y digwyddiadau mewn lleoliadau cyhoeddus a hygyrch, yn ystod yr wythnos ac ar ddyddiau Sadwrn. Bydd y digwyddiadau yn ystod yr wythnos ar agor rhwng 2yb a 7pm; bydd y digwyddiadau a gynhelir ar ddydd Sadwrn ar agor rhwng 10yb a 3yp (yn dibynnu ar argaeledd y lleoliad).

Bydd y rhaglen o ddigwyddiadau yn cael ei chynnwys yn llyfryn ac ar wefan yr ymgynghoriad (gweler uchod), a cherdyn post yr ymgynghoriad (gweler 4.7).

Bydd delweddau 3D cyfrifiadurol sy'n dangos y cynigion, i'ch helpu chi i ddeall effeithiau gweledol y prosiect yn well, ar gael yn y digwyddiadau hyn.

| Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| **Neuadd Bentref West Felton**<br>Holyhead Road, West Felton, Croesoswallt, Swydd Amwythig, SY11 4EH | Dydd Iau 27 Chwefror | 14:00 - 19:00 |
| **Neuadd Bentref Hordley a Bagley**<br>Lower Hordley, Ellesmere, Shropshire, SY12 9BQ | Dydd Gwener 28 Chwefror | 14:00 - 19:00 |
| **Neuadd Bentref Llanymynech**<br>Station Road, Llanymynech, Croesoswallt, Swydd Amwythig, SY22 6EE | Dydd Sadwrn 1 Mawrth | 10:00 - 15:00 |
| **Neuadd Gyhoeddus ac Institiwt Llanfair Caereinion**<br>Stryd y Bont, Llanfair Caereinion, Y Trallwng, SY21 0RY | Dydd Iau 6 Mawrth | 14:00 - 19:00 |
| **Canolfan Gymunedol Llansantffraid**<br>Treflan, Llansantffraid-Ym-Mechain, SY22 6AE | Dydd Gwener 7 Mawrth | 14:00 - 19:00 |
| **Neuadd Bentref Meifod Canolfan Gymunedol**<br>Meifod, SY22 6DF | Dydd Sadwrn 8 Mawrth | 10:00 - 15:00 |

## Dogfennau technegol

Bydd nifer o ddogfennau ychwanegol ar gael hefyd i gefnogi'r ymgynghoriad. Bydd y rhain ar gael ar ein gwefan, ac ar ffurf copi caled yn y digwyddiadau ymgynghori (er gwybodaeth yn unig).

- Datganiad o Ymgynghori Cymunedol
- Adroddiad Adborth Ymgynghori Anstatudol 2023
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol – Atodiadau
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol – Ffigurau
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol – Crynodeb Annhechnegol
- Cynllun Lleoliad
- Cynlluniau Ymgynghori
- Darluniau Tŵr a Sylfaen nodweddiadol
- Adeiladwaith Gosodiadau Nodweddiadol
- Cynlluniau Safle Dangosol
- Strategaeth Cysylltu â Grid
- Dogfen Aliniad Llwybr
- Arweiniad i'r Cynlluniau

## 4.7 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad

**Cerdyn post yr ymgynghoriad** – Bydd cerdyn post dwy ochr, dwyieithog, A5 yn cael ei anfon i gyfeiriadau preswyl a busnes yn y parth ymgynghori gan ddefnyddio data diweddaraf y Post Brenhinol. Bydd yn tynnu sylw at ddyddiadau'r ymgynghoriad ac yn egluro'n glir ble gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth, gan ganolbwyntio ar annog pobl i ymweld â'r wefan neu gysylltu â ni drwy sianeli gwybodaeth y prosiect. Bydd manylion y digwyddiadau ymgynghori hefyd yn cael eu cynnwys.

**Hysbysebu** – bydd y prosiect yn hysbysebu'r ymgynghoriad yn y cyfryngau lleol – wrth lansio'r ymgynghoriad a phythefnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben – gan annog pobl i gymryd rhan. Bydd hyn yn cynnwys hysbysebion print ac ar-lein yn The Powys County Times a'r Shropshire Star.

**Datganiadau i'r wasg** – bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi i'r cyfryngau lleol yn ystod yr ymgynghoriad. Cyhoeddir datganiad i'r wasg ar ddechrau'r ymgynghoriad a phythefnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben, gan annog pobl i gymryd rhan.

**Cyfryngau cymdeithasol** – byddwn yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n eiddo i Green GEN Cymru ac sy'n cael eu rheoli ganddynt.

**Hysbysiadau cyhoeddus** – cyhoeddir hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol, yn unol â Deddf Cynllunio 2008.

**Posteri** – byddant yn cael eu hargraffu a'u dosbarthu i'w harddangos drwy gynghorau lleol, lleoliadau sy'n cynnal digwyddiadau, a lleoliadau lleol eraill fel archfarchnadoedd, siopau a llyfrgelloedd.

**Hysbysiadau i gynrychiolwyr etholedig** – bydd y rhain yn cael eu hanfon at gynrychiolwyr etholedig, yn eu gwahodd i gymryd rhan ac i annog eraill i wneud hynny.

## 4.8 Y Gymraeg

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn hygyrch i'r rheini sy'n dymuno cymryd rhan yn Gymraeg.

Bydd yr holl ddeunyddiau cymunedol (gweler adran 4.6) ar gael yn y Gymraeg a bydd siaradwyr Cymraeg yn bresennol ym mhob digwyddiad ymgynghori. Bydd ymatebwyr yn gallu rhoi adborth yn y Gymraeg.

At ddibenion dadansoddi ac adrodd ar adborth Cymraeg, ochr yn ochr ag ymatebion eraill, bydd yr adborth Cymraeg yn cael ei gyfieithu i Saesneg gan asiantaeth gyfieithu benodedig y prosiect. Cytunwyd ar y dull hwn er mwyn sicrhau cysondeb o ran dehongli a chyfieithu adborth. Os bydd ymholiad yn cael ei gyflwyno dros y ffôn, bydd aelod o'r tîm sy'n siarad Cymraeg yn ymateb i'r unigolyn hwnnw.

## 4.9 Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad ar agor o 19 Chwefror - 16 Ebrill 2025.

**Gall pobl gyflwyno eu hadborth drwy'r dulliau canlynol:**

- Ffurflen adborth ar-lein ar wefan y Prosiect **greengenvyrnwyfrankton.com**
- Copi caled o'r ffurflen adborth sydd ar gael mewn digwyddiadau cymunedol neu ar gais gan y tîm ymgynghori (cysylltwch drwy'r rhif rhadffôn neu e-bost).
- Drwy anfon neges e-bost at **info@greengenvyrnwyfrankton.com**
- Yn ysgrifenedig at **RHADBOST Green GEN Cymru V2F**

Ni fyddwn yn ymateb yn unigol i bob darn o adborth, ond byddwn yn crynhoi'r themâu a'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn ein Hadroddiad Ymgynghori, a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'n cais am DCO.

Byddwn yn ymateb i ymholiadau a dderbynnir am logisteg yr ymgynghoriad ei hun, manylion y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal, argaeledd deunyddiau ymgynghori neu gyngor ar sut i gyflwyno ymateb.

Mae Green GEN Cymru yn cymryd preifatrwydd data o ddifrif a bydd yr holl ddata'n cael ei gadw yn unol ag arferion gorau GDPR.

## 4.10 Ymholiadau a gwybodaeth

Mae gan y prosiect wasanaeth llinell ymholiadau rhadffôn – 0800 915 3590. Yn ystod yr ymgynghoriad, bydd y llinell ymholiadau yn cael ei staffio a'i hateb gan aelodau'r tîm cyfathrebu o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9.30am a 5pm.

Y tu allan i'r amseroedd hyn, bydd galwyr yn gallu gadael neges llais a bydd tîm y prosiect yn dychwelyd eu galwadau.

Bydd aelodau o'r tîm sy'n siarad Cymraeg ar gael i ymateb, os oes angen.

Mae cyfeiriad e-bost a rhadbost ar gael hefyd.

Rhadffôn: **0800 915 3590**

E-bost: **info@greengenvyrnwyfrankton.com**

Rhadbost: **RHADBOST Green GEN Cymru V2F**

## 4.11 Ceisiadau am ddogfennau

Bydd copïau o'r llyfryn ymgynghori a'r ffurflen adborth ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori neu ar gais. Bydd ceisiadau am niferoedd mawr a/neu gopïau papur o'r dogfennau technegol, y cynlluniau a'r mapiau yn cael eu hadolygu fesul achos. I dalu costau argraffu, gellir codi tâl copïo rhesymol, i'w dalu gan y derbynnydd hyd at uchafswm o £500 am y gyfres gyfan o ddogfennau ymgynghori. Gellir gofyn am y rhain drwy gysylltu â thîm y Prosiect.

## 4.12 Y potensial ar gyfer ymgynghoriadau eraill yn yr ardal

Mae prosiectau ynni eraill yn digwydd yn yr ardal, sydd yn eu camau datblygu, gyda'r potensial y gallent ymgynghori ar adeg debyg i'n hymgynghoriad statudol ni.

Rydym yn cydnabod bod potensial i ymgyngoreion gael eu drysu neu eu blino gan nifer o ymgynghoriadau yn yr ardal ar yr un pryd.

Byddwn yn parhau i fonitro statws prosiectau eraill yn yr ardal, gan gynnwys os ydynt yn bwriadu ymgynghori o fewn cyfnod amser tebyg. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn nodi'n glir yn ein deunyddiau cymunedol lle mae'r ymgynghoriadau hyn ar wahân, er mwyn osgoi dryswch i ymgyngoreion.



## 4.13 Ymgynghori yn ychwanegol i'r ymgynghoriad cymunedol

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cymunedol, mae Deddf Cynllunio 2008 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â nifer o grwpiau ychwanegol. Diffinnir y rhain fel a ganlyn, ac maent yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol perthnasol, arbenigwyr technegol, tirfeddianwyr mawr (fel y Weinyddiaeth Amddiffyn neu Ystad y Goron), awdurdodau trafnidiaeth a gwasanaethau brys. Mae'r rhain fel a ganlyn:

### a42 (1) (a): ymgyngoreion rhagnodedig

Cyrff rhagnodedig fel y'u rhestrir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009 (fel y'u diwygiwyd).

Ymhlith eraill, mae'r cyrff rhagnodedig i ymgynghori â hwy yn cynnwys pob cyngor cymuned a chyngor plwyf y mae'r cynigion wedi'u lleoli yn eu hardal, a chynghorau cyfagos.

### a42 (1) (b) a 43: awdurdodau lleol fel y'u disgrifir yn y Ddeddf

Awdurdodau lleol, fel y'u diffinnir o dan adran s43 Deddf Cynllunio 2008, gan gynnwys y rheini y mae'r cynigion wedi'u lleoli yn eu hardal, ac awdurdodau lleol cyfagos.

Byddwn hefyd yn ymgynghori â'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

### a42 (1) (d) a 44: y rheini sydd â buddiant yn y tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef (fel perchnogaeth, tenantiaeth a/neu fuddiannau eraill)

Pob unigolyn y nodwyd bod ganddo fuddiant yn y tir y mae'r cynigion yn ymwneud ag ef, o fewn un neu ragor o'r categorïau a nodir yn adran 44 Deddf Cynllunio 2008.

Ar yr un pryd â'n hymgynghoriad cymunedol, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r ymgyngoreion hyn a byddwn yn eu gwahodd i roi sylwadau ar ein cynigion yn ystod yr ymgynghoriad. Byddwn wedyn yn ystyried eu hadborth ochr yn ochr â'r adborth a gawn gan y cyhoedd.



# 5. BETH FYDD YN DIGWYDD AR ÔL YR YMGYNGHORIAD

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, byddwn yn edrych yn ofalus ar yr holl adborth rydym wedi'i gael ac, ynghyd â rhagor o waith technegol, byddwn yn diweddaru ein cynigion cyn cyflwyno ein cais am DCO. Os bydd angen gwneud newidiadau sylweddol, efallai y bydd angen cynnal ymgynghoriad pellach.

Bydd unrhyw ymgynghoriadau pellach yn cael eu cyfathrebu â rhanddeiliaid mewn da bryd a byddant yn glynu wrth ganllawiau perthnasol ac unrhyw ddarpariaethau statudol yn Neddf Cynllunio 2008. Byddai ymgynghoriad pellach yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn y SoCC hwn, a byddai'n briodol i leoliad daearyddol ac effeithiau unrhyw newidiadau arfaethedig i'r prosiect.

Ar ôl adolygu a dadansoddi'r holl adborth, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gynhyrchu sy'n nodi sut mae adborth o ymgynghoriadau statudol ac anstatudol wedi siapio dyluniad y datblygiad arfaethedig.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn rhoi manylion y broses ymgynghori, gan ddangos sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad cymunedol sy'n ofynnol o dan a47 o Ddeddf Cynllunio 2008, yn unol â'r SoCC hwn. Bydd hefyd yn esbonio sut y gwnaethom weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod ein hymgynghoriad yn gymesur ac wedi'i deilwra i gymunedau lleol sy'n byw yng nghyffiniau'r prosiect.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r cais am DCO. Felly, gellir cyflwyno unrhyw sylwadau a dderbynnir oddi wrth ymgyngoreion i'r Arolygiaeth Gynllunio naill ai'n rhannol neu yn eu cyfanrwydd gyda'r cais. Byddwn yn dileu manylion personol unrhyw ymatebion a gyhoeddir. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn adolygu'r Adroddiad Ymgynghori i bennu digonolrwydd yr ymgynghoriad.

Os bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn derbyn y cais, bydd Green GEN Cymru yn hysbysebu bod y cais wedi'i dderbyn yn y modd rhagnodedig.



# 6. CYSYLLTU Â NI

Drwy gydol proses ymgeisio’r Prosiect, byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i ddatblygu mewn ffordd sy’n galluogi pobl i ymgysylltu yn y ffordd fwyaf ystyrlon.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn, os oes gennych gwestiynau am y Prosiect hyd yma neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â ni drwy’r sianelau canlynol.

Rhadffôn:
**0800 915 3590**

E-bost:
**info@greengenvyrnwyfrankton.com**

Rhadbost:
**RHADBOST Green GEN Cymru V2F**



# ATODIAD 1: SEFYDLIADAU NAD YDYM YN CLYWED GANDDYNT YN AML

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgol a Addysg** | Ysgol Gynradd | Ysgol Meifod |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd Carno |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol Pont Robert |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfechain |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryn Offa |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd yr E A Whittington |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandysilio |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol G.G Carreghofa |
| | Canolfan Addysg | Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad Meddygol Dysgu - Croesoswallt |
| | Ysgol Gynradd a Meithrinfa | Ysgol Eglwys Loegr Gorllewin Felton |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol Bro Caereinion - Campws Gynradd |
| | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd Llansantffraid |
| | Ysgol Gynradd a Uwchradd | Ysgol Llanfyllin |
| | Ysgol Uwchradd | Ymddiriedolaeth Academi'r Gororau |
| | Ysgol Uwchradd | Ysgol Bro Caereinion - Campws Uwchradd |
| **Grwpiau Ieuenctid** | Clwb Ffermwyr Ifanc | CFfI Maldwyn |
| | Clwb Ffermwyr Ifanc | CFfI Llanfair Caereinion |
| | Clwb Ffermwyr Ifanc | CFfI Dyffryn Efyrnwy |
| | Clwb Ffermwyr Ifanc | Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Amwythig |
| | Grwp Ieuenctid | Clwb Ieuenctid Hŷn Croesoswallt |
| | Grwp Ieuenctid | Clwb Ieuenctid Iau Croesoswallt |
| | Grwp Ieuenctid | SYA |
| | Senedd Ieuenctid Cymru | Jake Dillon Senedd Ieuenctid ar gyfer Sir Drefaldwyn |
| | Grwp Ramblers | Ramblers Ifanc Swydd Amwythig |
| **Elusennau** | Elusen i bobl ag anawsterau dysgu | Powys People First |
| | Elusen Iechyd Meddwl | Prosiect Rekindle's Small Steps Y Drenewydd |
| | Elusen Iechyd Meddwl | Mind Canolbarth a Gogledd Powys |
| | Sefydliad Gwirfoddol | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys |
| | Pobl oedrannus | Age Cymru |
| **Grwpiau Sipsiwn a Theithwyr** | Cymuned Sipsiwn a Theithwyr | Cyswllt Sipsiwn Cyngor Sir Amwythig |
| | Cymuned Sipsiwn a Theithwyr | Sipsiwn a Theithwyr Cymru |
| **Grwpiau crefyddol** | Grwp crefyddol | Sefydliad Islamaidd Swydd Amwythig |
| | Grwp crefyddol | Cymdeithasu Eglwysi Efengylaidd Cymru |
| | Grwp crefyddol | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| | Grwp crefyddol | Eglwys Gatholig Cymru a Lloegr |
| | Grwp crefyddol | Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd |
| | Grwp crefyddol | Cyngor Mwslimaidd Cymru |



www.greengen
vyrnwyfrankton.com

info@greengen
vyrnwyfrankton.com

0800
915 3590

RHADBOST
Green GEN
Cymru V2F

GREEN
GEN
CYMRU